## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr **6ed o Dachwedd** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, John Jones, Enid Egginton, (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Gwilym Evans (Prenteg) Cynghorydd June Jones, Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | JT yn cynnig a CW yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o’r cyn-gofnodion: | **Wal Mynwent Llanfihangel y Pennant –** Gwaith yma wedi’i gwblhau. JJ wedi ymweld ar fynwent i gadarnhau.<br><br>**Grant Gwynedd Ni -** Wedi cysylltu gyda Chyfrifiaduron Porthmadog. Maent yn y broses o gysylltu â chwmnïau i brynu’r offer. Mae’r broses yma yn cymryd mwy o amser na’r disgwyl. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i egluro hyn ac i ymestyn y dyddiad cwblhau.<br><br>**Llog y cyfrif cadw –** Clerc i wneud mwy o waith ymchwil ac i gyflwyno’r opsiynau yn y cyfarfod nesaf / is-bwyllgor cyllid.<br><br>**Golan -** Clerc wedi adrodd am ordyfiant ar allt Cefn Coch Isaf eto, dim ymateb gan Gyngor Gwynedd.<br><br>**Prenteg a phroblemau traffig –** Cafwyd ateb gan Iwan ap Trefor yn gynharach yn y dydd yn cadarnhau bod asesiad o’r arwyddion wedi’i gwblhau, ac yn sgil hynny nid yw’n bosibl i’r Cyngor gyflawni unrhyw welliannau pellach ar hyn o bryd. Mae’r ddarpariaeth bresennol yn cydymffurfio â’r safonau a’r gofynion statudol perthnasol. Aeth ymlaen i ddweud bod yna gyfrifoldeb ar y gyrwyr a’r cwmnïau dosbarthu i sicrhau eu bod yn gweithredu’n ddiogel ac yn gyfrifol. Felly os yw'r arwyddion cywir yn ei le yna nid oes lawer all y Cyngor ei gyflawni parthed i reolaeth y math o gerbydau sy'n defnyddio'r rhwydwaith.<br><br>**Bryncir / Glandwyfach -** Derbyniwyd ateb gan yr Adran Drafnidiaeth o fewn Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi cynnal arolwg fideo yn gynharach eleni yn dilyn pryderon blaenorol ynglŷn â thraffig sy'n troi i'r B4411 ar ochr anghywir yr ynys draffig, Er nad oedd unrhyw symudiadau gyrru'r "ffordd anghywir" wedi'u cofnodi, gwelodd yr arolwg rai symudiadau amhriodol eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r argymhellion yn dilyn yr arolwg yn cynnwys cau ffordd ochr yn ogystal â gwelliannau i arwyddion a marciau ffordd. Y gobaith yw y byddent yn gallu gwneud gwelliannau yn y flwyddyn ariannol nesaf.<br><br>**Gwasanaeth Bysus Bryncir** - Clerc wedi adrodd am y broblem gyda bysus ddim yn stopio yn y mannau cywir ac am yrwyr yn gwisgo clustffonau ac efallai ddim yn clywed y gloch.<br><br>**Penmorfa -** Cafwyd ymateb gan Adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi dechrau'r broses o adolygu'r terfynau cyflymder 20mya a 30mya ar y Rhwydwaith Cefnffyrdd, gan wneud hynny yn unol â'r canllawiau newydd hyn. Fel rhan o'r adolygiad, byddent yn ystyried yr angen am derfynau cyflymder clustogi wrth i bobl agosáu at y terfynau cyflymder 20 m.y.a. sy'n parhau mewn grym. Bydd yr adolygiad hwn yn dod i ben yn ddiweddarach eleni a bydd unrhyw gamau sy'n codi yn cael eu cymryd maes o law.<br><br>Pan fydd swyddogion wedi cadarnhau a fydd y terfyn cyflymder o 20mya ym Mhenmorfa yn parhau, byddant yn cynnal arolwg cyflymder a fydd yn dangos a oes angen mesurau peirianneg i wella cydymffurfiaeth. Os bydd data'n cadarnhau bod cyflymderau ar y ganradd 85 sy'n fwy na 10% yn uwch na'r terfyn cyflymder, byddwn yn comisiynu asesiad yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau'n nodi y dylid cyflwyno pob mesur arall cyn defnyddio arwyddion electronig. |
| 7. | Mynwentydd: | **Ffioedd Claddu** - Yn yr Is-bwyllgor Mynwentydd a gynhaliwyd ar y 23ain o Hydref dros Microsoft Teams y consensws oedd y dylid codi'r ffioedd claddu. Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am 5 mynwent ond dim ond dau o'r rheiny sydd yn cynhyrchu incwm. Mae'r gwariant yn dipyn uwch na'r incwm. Nid yw'r ffioedd wedi newid ers 2017. GE yn cynnig bod y ffioedd yn cael eu codi 20%, CW yn eilio a phawb yn cydweld.<br><br>**Llechi Coffa** - Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i gael mwy o wybodaeth ar eu trefniadau hwy gyda llechi coffa. Mae Cyngor Gwynedd yn codi £700 am garreg goffa ac mae hyn yn cynnwys les o 20 mlynedd. Nid oes llawer o alw ar hyn o bryd ond gall hyn newid i'r dyfodol. Mae yna wal coffa ym Mynwent Deneio ym Mhwllheli ac mae croeso i'r cynghorwyr ymweld ar fynwent honno neu'r fynwent ym Mangor. Cafodd awgrym gan GE i gael placiau coffau wedi'i wneud allan o fetel efallai yn hytrach na charreg. Penderfynwyd bod angen gwneud mwy o waith ymchwil. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | **Llwybr Golan** – Dewi Owen yn holi pa bryd sylwodd rhywun fod y wal ym maes parcio'r ganolfan wedi'i ddifrodi. MLW yn cadarnhau mai diwrnod cyn ein cyfarfod misol diwethaf – 1af o Hydref. Clerc i hysbysu Dewi. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Llwybr 105 –** Adroddwyd nad oes neb wedi bod allan i weld llwybr 105 wedyn. Clerc i fynd ar ôl y mater yma. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Golan –** Angen glanhau ochrau'r ffyrdd. Clerc i adrodd.<br><br>**Garndolbenmaen –** ystafell haul enfawr wedi'i osod ar eiddo Gyrn Goch, Garn. Dim cof derbyn gwybodaeth gan yr Adran Gynllunio am hwn. Clerc i ymchwilio ymhellach.<br><br>**Pentrefelin** - Dŵr yn rhedeg i lawr y ffordd o Dy'n Llech i'r ffordd fawr. RJ wedi adrodd am hyn i Gyngor Gwynedd. Bosib datrys y mater gyda pheipen fwy. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld os oes modd cael gwneud hyn.<br><br>Arwydd pont isel ger yr hen eglwys yng Nghriccieth angen ei ddadorchuddio - mae tyfiant yn ei guddio ar hyn o bryd. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd gan gopïo Cyngor Tref Criccieth i'r e-bost.<br><br>**Bryncir –** Dim i'w adrodd.<br><br>**Penmorfa** – Dim i'w adrodd<br><br>**Prenteg -** Adroddwyd nad yw'r arwydd electronig sydd yn hysbysu bod y ffordd (B4410) ar gau oherwydd llifogydd yn gweithio. Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Angen glanhau'r ffordd drwy'r coed ym Mhrenteg. Dŵr yn dueddol o redeg ar hyd y ffordd. Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Parthed y garej sydd mewn cyflwr gwael yn y maes parcio. Bu i'r Cynghorydd June Jones gysylltu â'r Uned Barcio. Maent wedi rhoi rhywbeth o'i amgylch i dynnu sylw at y perygl. Dim mwy o wybodaeth ynghylch y perchnogion.<br><br>Dŵr yn cronni ar Bont y Traeth yn parhau i fod yn broblem. Clerc i gysylltu gyda YGC i weld os oes modd gwneud unrhyw beth.<br><br>Adroddodd RJ pa mor berygl yw'r gongl ar Bont y Traeth wrth ddreifio o gyfeiriad Garreg Llanfrothen yn y tywyllwch. Cyngor Gwynedd wedi gweld y perygl yma yn ystod y cyfarfod safle diwethaf ac roedd yn fater oedd fod i gael sylw yn y tymor byr. Clerc i gysylltu â hwy i ofyn am ddiweddariad.<br><br>JJ yn gadael y cyfarfod. |
| 10. | Gwaith Coed – Trefn Dewis a Dethol Gwaith Coed | Derbyniwyd llythyr gan gwmni torri coed lleol yn codi pryder am y ffordd mae cynghorau cymuned yn dewis a dethol gwaith torri coed. Roedd pryder nad oedd cynghorau cymuned yn gofyn am dystysgrifau yswiriant, cymwysterau a datganiad dull wrth ofyn am brisiau. Diolchwyd i'r cwmni torri coed am y llythyr. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r cynnwys. Nodwyd mai polisi'r Cyngor Cymuned yw gofyn am y ddogfennaeth yma gan y cwmni llwyddiannus yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | unig. Clerc i ysgrifennu yn ôl at y cwmni yma i ddiolch am eu sylwadau a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr. |
| 11. | Polisïau - Gweithdrefn Gwyno a Pholisi Gweithredodd Annerbyniol gan Unigolion | Penderfynwyd derbyn y polisïau yma – HP yn cynnig a MLW yn eilio. Pawb yn cydweld. |
| 12. | Cyllideb 2026/27 | Penderfynwyd neilltuo arian tuag at gynnal a chadw'r diffibrilwyr a hefyd i ddatblygu ardal llechi / placiau coffa ym Mynwent Bethel. |
| 13. | Rhoddion Ariannol | Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Yr Wylan a'r Ffynnon. |
| 14. | Gohebiaeth | a. Gwenno Mai Owen - Strategaeth Gwastraff Ailgylchu Gwynedd. Awgrymwyd y byddai'n haws i bawb ddarllen ac ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad. |
| 15. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Comisiwn Elusennau – Cae Chwarae Penmorfa. Clerc wedi llenwi'r adroddiad blynyddol.<br>b. Unllais Cymru – Hyfforddiant Hydref – Rhagfyr<br>c. Unllais Cymru – Cofnodion Pwyllgor Ardal a Chyflwyniad Cyngor Gwynedd.<br>ch. Tŷ'n Llan, Cwm Pennant – Diolch<br>d. Cyngor Cymuned Llanengan – Cofnodion Cyfarfod Deffib. Rhannwyd. |
| 16. | Cynllunio | Rhestrau 29/9, 6/10, 13/10, 20/10 a 27/10<br><br>Dim Ceisiadau |
| 17. | Materion Ariannol | **<u>Ceisiadau am arian:</u>** Clwb Merched Garn<br>Eisteddfod Garndolbenmaen<br><br>**<u>Monitro'r Gyllideb</u>**: Dim Gorwariant<br><br>**<u>Biliau i'w talu:</u>**<br><br>Cyflog Clerc £342.89<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 85.72<br>Veolia £ 2.60<br>Madog Gardencare £390.00 Hydref (Bethel a Chae Chwarae)<br>Cymru Cyf 1 £466.80<br>Wayne Mitchelmore £1,000 (Wal Mynwent Cwm Pennant)<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod.**<br><br>**<u>Derbyniadau</u> –** Henry Jones Cyf £110.00<br>Pritchard & Griffiths £225.00<br>£ 70.00<br>**<u>Balansau Cyfrifon:</u>**<br>Cadw – £43,837.04 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfredol- £1,432.96 |
| 15. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Tair Sedd Wag<br>Rhybudd Llifogydd Pont Traeth<br>Cyffordd Glandwyfach<br>Penmorfa |